# Gair bach Bethlehem 2021

RHIFYN 28



www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem **Gwaelod-y-garth** Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 28 Mai 16 2021

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

<u>**Ail-agor y Capel**</u>

## NEWYDDION CYMYSG



Yn y rhifyn diwethaf o'r 'Gair Bach', fe awgrymwyd y byddem yn debygol o ail-agor y capel ar gyfer cynnal gwasanaethau ar y Sul o'r 23ain o Fai ymlaen. Fe hefyd soniwyd am y gwaith paentio oedd i'w gyflawni cyn hynny, gan nodi y byddai'n rhaid sicrhau digon o amser i'r paent i sychu cyn gwahodd pawb yn ei ôl.

Mae arnaf ofn mai newyddion cymysg sydd gennyf i'w adrodd wrthych y tro yma.

***Y newyddion drwg i ddechrau!***

Mae'r gwaith paentio yn mynd rhagddo yn ofalus a diwyd, ond bydd angen mymryn mwy o amser er sicrhau cwblhau'r dasg honno. Ac wrth gwrs bydd yn rhaid wedyn cael cyfle i lanhau'r adeilad yn drylwyr, a gosod y cyfan o'r offer sydd ar hyn o bryd wedi ei roi o'r neilltu, yn ogystal a'r hyn sydd ei angen i gydymffurfio a rheolau Cofid, yn ôl yn eu lle.



***Y newyddion da!***

Byddwch yn siŵr o fod wrth eich boddau o weld y lle ar ei newydd wedd, gan obeithio y bydd y lliwiau a ddewiswyd ar gyfer y gwaith yn eich cyffroi a'ch ysbrydoli, ac yn fodd o greu bwrlwm newydd eto o fewn muriau'r capel, sydd, fel y cofiwch, yn prysur ddynesu at ei 150 penblwydd.

Felly, rhaid bod yn sicr o'n pethau, a gwell peidio a rhoi dyddiad penodol yn y rhifyn hwn o'r 'Gair bach', ond yn hytrach, addunedu, pan fydd yn briodol, i roi pythefnos o rybudd o'r bwriad i ail-agor drwy e-bost i bawb ohonoch.

Cymerwch sbec ar y lluniau i weld tu fewn y capel ar fore Sadwrn yr 8fed o Fai 2021 - prawf o'r diwydrwydd, ac o'r hyn sydd ar ôl i'w wneud!

***Rhodri-Gwynn Jones (Ysg)***

## Casi a Chymorth Cristnogol



Yr hanes ar dudalen 2

**Hefyd yn y rhifyn hwn:**

*✱ Yr Ysgol Sul ✱ Newyddion*
*✱ Erthyglau ✱ Yr Oedfaon*
*✱ Delwyn ✱ Odlau'r Garth*
*✱ Priodas Ddirgel ✱ Yr Etholiad*
*✱ Ein helusen leol*
*✱ Atgofion ar Dâp*

# Y Ddinas.



Wrth i mi ysgrifennu'r ychydig hyn o eiriau mae 'na daflegrau'n hedfan drwy'r awyr, mae 'na gartrefi'n cael eu dinistrio, ac ma' 'na bobl a phlant di euog yn marw, a hynny yn un o ddinasoedd hynaf a mwya' "sanctaidd" y byd. Ie, Jerwsalem. Y ddinas "sanctaidd", sanctaidd i'r Iddew, y Cristion a'r Mwslim, a dinas sy' wedi gweld brwydro erchyll ers miloedd o flynyddoedd. Bydde'r bugeiliaid crwydrol a sefydlodd yno gynta'n synnu a rhyfeddu ar yr hyn ddaeth ar eu hôl. Brwydro rhwng y Cananeaid a'i cymdogion, yna'r Hebreaid a'r Israeliaid a'u llu gelynion, ac yna fe dramwyodd pob ymerodraeth fawr dan haul drwy'r lle, o'r Pharo i Gesar a Saladin. Fe ddinistriwyd y ddinas ddwywaith, dioddefodd ymosodiadau 52 o weithiau, gwarchae 23 o weithiau, ac fe gafodd hi ei choncro 44 o weithiau! Tipyn o hanes i ddinas "sanctaidd".

Ond nid "dinas sanctaidd" yw ystyr yr enw Jerwsalem. Yn ôl llyfr Joshua mae'n gyfuniad o ddau enw, Yireh a Shalem. Yr elfen gynta' yw Yireh, sef "man ufuddhau". Abraham, un o dadau Iddewiaeth ac Islam, roddodd yr enw yna i'r lle, am mai dyna'r fan roedd e'n bwriadu aberthu ei fab. Ac yna'r ail elfen - Shalem (Salem i ni'r Cymry, Shalom/Salaam yn Israel/Palesteina, sef - "Lle o Heddwch".

Ond ma' Jerwsalem yn bell o fod yn "Lle o Heddwch" heddi', ac mae'r casineb sy'n ffrwtian yn gyson o dan yr wyneb wedi ffrwydro. Beth fydd nesa'n hanes y ddinas hynafol hon? Man aberthu meibion? Neu man lle ma' heddwch yn teyrnasu? Dwi'n gwybod be' ma' Bethlehem yn dymuno i Jerwsalem, does ond gobeithio bo' digon o bobl ac arweinwyr eraill yn dymuno'r un fath.



## Tri Chan Mil o Gamau Heulwen a Casi

Fe fydd pawb ymunodd â'r oedfa Cymorth Cristnogol, ar-lein y Sul diwethaf, yn gwybod bod Heulwen Jones, Yr Eglwys Newydd, wedi dewis cefnogi Cymorth Cristnogol mewn ffordd ymarferol iawn yn ystod mis Mai. Fe benderfynodd hi gerdded 300,000 cam yn ystod y mis. Ac fel gwelwch o'r llun, mae ganddi gwmni – Casi, yr ast fach.

Ychydig ddyddiau 'nôl, roedd eich cyfraniadau chi i gyd i gefnogi ymdrech Heulwen (a Casi) wedi codi £690 at waith y mudiad (ymron teirgwaith ei tharged cyntaf!), ac os ydy chi'n dymuno chwyddo'r casgliad hwnnw, yna cliciwch ar https://www.facebook.com/donate/920913075339585/

Neu gallwch anfon cyfraniad at Heulwen ei hunan.

## Colli Gwyn Jones

Trist yw cofnodi marwolaeth Gwyn Jones, gwr Vi Jones, gynt o Bentyrch. 'Roedd y ddau ohonyn nhw wedi symud i Gartref Gofal yn Llanllieni (Leominster), i fod yn nes at deulu, ers ychydig o flynyddoedd. Roedden nhw'n aelodau ffyddlon ym Methlehem, ac fe gofiwch i ni ymweld a'r ddau ohonyn nhw, pan oedden nhw yng Nghartref Gofal Danescourt, i gynnal oedfa Nadolig 2018 yn eu cwmni.

Un o gyffiniau'r Brithdir, ger Dolgellau, oedd Gwyn, neu i roi ei enw llawn iddo, Arwel Gwyndaf Jones, ac, os cofiaf yn iawn credaf iddo ddweud wrthyf mai saer coed ydoedd wrth ei hyfforddiant cychwynnol.

Bu ef (a Vi dwi'n credu) yn gweithio i Asiantaeth Gwasanaethau Adeiladau (Property Services Agency) Llywodraeth y DU.

'Roedd Gwyn (a feddai lais bas dwfn), yn aelod o Gôr Meibion Pendyrys, ac wedi teithio'r byd gyda'r côr, yn canu dan faton Glynne Jones, yr Arweinydd amlwg o Ddowlais, a fu wrth y llyw o 1962 hyd 2000.

Ar safle gwe'r Côr, nodir fel a ganlyn:-

*"Rhoddir 'Aelodaeth am Oes' i gantorion sydd wedi cyflawni 21 mlynedd o wasanaeth, a dynodir rheini sydd yn dal ar y Cofrestr presennol gyda seren*.*
*Caiff rheini sydd yn aelodau ers 50 mlynedd eu dynodi â dwy seren**.*
*Mae rheini yn perthyn i 'Glwb 50+' arbennig iawn."*

Ac ydi, mae enw A. Gwyndaf Jones (1961 – 2011) ar y rhestr gyda dwy seren ** gyferbyn â'i enw!

Mewn trafodaeth ar bêl-droed, mae gen i gof iddo ddangos llun ohono yn nhîm pêl-droed "Tŷ'r Cymry, Caerdydd"
– gyda'r diweddar Ddoctor Dafydd Huws fel cyd-chwaraewr – rhagflaenwyr tîm Y Cymric y bum i yn rhan ohono flynyddoedd yn ddiweddarach!

Bu Gwyn yn aelod, ar ran Plaid Cymru, ar Gyngor Cymuned Pentyrch am gyfnod, ac roedd yn gadarn ei ddaliadau gwleidyddol. 'Roedd yn ddosbarthwr 'Tafod Elai' ym Mhentyrch, ac wedi ymddeol bu'n gwirfoddoli gyda'r elusen 'Travol', gan yrru'r bws-mini o le i le yn ôl y gofyn. Fe gofiwch i ni fel capel gefnogi 'Travol' fel ein helusen leol ychydig flynyddoedd yn ôl, a hynny yn bennaf oherwydd cyswllt Gwyn â'r mudiad.

Pan fyddai amser yn caniatáu iddo hamddena, byddai wrth ei fodd yn rhedeg y trenau bach ar y cledrau yr oedd wedi eu hadeiladu yn gelfydd yn nenfwd ei gartref ym Mhentyrch. 'Rydyn ni, fel teulu Bethlehem, yn cofio yn annwyl iawn am Vi a gweddill y teulu yn eu profedigaeth.

Bydd y gwasanaeth angladdol yn Henffordd, ac ar gael ar-lein am 12:15 ar y 19eg o Fai 2021. Dyma'r manylion:-https://www.obitus.com/

Enw / Username: baca2007 Cyfrinair / Password: 299731

***Rhodri-Gwynn Jones***

### *Bethlehem ac Etholiad Senedd Cymru 2021*

Do, daeth yr Etholiadau a chawn lai o daflenni ymgyrchu drwy'n drysau am y tro. Credwch neu beidio, mae **o leiaf bump** o'r rhai a etholwyd i Senedd Cymru a gynhaliwyd ar y 6ed o Fai 2021 â chyswllt (o fath!) â Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Does yr un ohonyn nhw'n aelodau yma ar hyn o bryd, ond tybed faint o gapeli eraill Cymru all wella ar y nifer hwn?

Mae **Peredur Owen Gruffydd** (AS Dwyrain De Cymru) yn frawd i Eilir, ac yn fab i'r Parchedig Robert Owen Griffiths. Mae wedi canu yn ein plith sawl tro – fel aelod o gorau lleol ac fel aelod o'r gynulleidfa.

Mae **Cefin Campbell** (AS Canolbarth a Gorllewin Cymru) yn un oedd yn mynychu'r capel cyn iddo symud 'nôl i Orllewin Cymru i fyw.

Mae **Julie Morgan** (AS Gogledd Caerdydd) yn wraig i'r diweddar Rhodri Morgan, oedd yn mynychu'r capel pan oedd yn blentyn.

Mae **Rhys ab Owen** (AS Canol De Cymru) yn pregethu yn achlysurol o bulpud Bethlehem.

Ac mae gwas priodas **Sian Gwenllian** (AS Arfon) a'i diweddar ŵr, Dafydd Vernon Jones, yn aelod ym Methlehem.

Os gwyddoch chi am fwy o gysylltiadau, yna gadewch i ni wybod!

## Babis Bethlehem

Croeso i ddau fach newydd i'n plith:

- Ganwyd Miriam Elain i Manon a Geraint ar Ebrill 27ain, 6 wythnos yn gynnar, yn chwaer fach i Ffion a Nia, gan wneud Rhian, Ffwrnes Blwm, yn Nain i 14eg o wyrion a wyresau!
- Hefyd ganwyd Pabo Môr i Fflur a Garmon ar Ebrill 28ain, ŵyr bach newydd i Alwyn ac Angharad, Ffynnon Taf.

*(Fe welwch lun o Pabo Môr yma – daw cyfle rhyw dro eto i Miriam Elain wynebu'r camera!)*



# Dyddiadur yr Ysgol Sul

*Heulwen Jones*

**Dydd Sul 18 Ebrill 2021**





Hwn oedd yr Ysgol Sul cyntaf ar ôl gwyliau'r Pasg ac yr oedd yn hyfryd cael cwmni'r plant unwaith yn rhagor. Darllenais stori Iesu yn ymweld a'r ddwy chwaer Mair a Martha a bu'r plant yn trafod pwysigrwydd eistedd yn dawel i feddwl a gwrando, fel y gwnaeth Mair, yn hytrach na rhuthro o gwmpas yn ddiddiwedd, fel y gwnaeth Martha.

Cawsom wybod gan Delwyn bore 'ma pwy yw enillydd cystadleuaeth dylunio Wy Pasg yr Ysgol Sul. Diolchodd i bawb oedd wedi anfon eu ceisiadau i mewn a chyhoeddodd taw Luned Garside yw'r enillydd. Dyma luniau o wy Pasg Luned a'i gwobr. Llongyfarchiadau mawr iddi.

**Dydd Sul 25 Ebrill 2021**

Daeth Glenys atom bore 'ma ac yr oedd yn hyfryd cael ei chwmni hi – ac Anthony am ychydig funudau ar y diwedd. Adroddodd stori am gath un o'i ffrindiau oedd yn berchen ar dalent arbennig i ddal llygod bach. Un diwrnod roedd y gath wedi dal llygoden a mynd a hi at ei pherchennog fel anrheg. Llwyddodd ei ffrind achub y lygoden a'i rhyddhau i le diogel, er mawr siom i'r gath!

Gofynnodd i'r plant pa dalent arbennig bydden nhw'n hoffi cael petai nhw yn arch-arwr neu 'superhero'. Roedd rhai am fedru rhedeg yn gyflym, eraill am arlunio yn dda, a rhai am ganu, ond medru hedfan oedd y dalent fwyaf poblogaidd. Atgoffodd Glenys y plant bod talentau arbennig gan bob un ohonynt yn barod ac i ddefnyddio eu talentau ar bob achlysur.







**Dydd Sul 2 Mai 2021**





Tro Gwenan oedd hi i arwain bore 'ma ac fe gyflwynodd hi Ddameg yr Heuwr i'r plant mewn ffordd gyfoes a pherthnasol. Cymharodd y weithred o hau'r hadau a sut oedd y plant yn deall eu gwersi yn yr ysgol. Dywedodd Delwyn taw Dameg yr Ysgol Sul oedd yr enw ar y ddameg pan oedd e'n grwt yn Aberdâr. Y plant yw'r hadau sy'n cael eu plannu yn yr Ysgol Sul, ac wrth iddyn nhw ddysgu mwy am yr Iesu a sut i fyw yn dda maent yn gwreiddio, tyfu a blodeuo a dod yn aelode llawn o'r gymdeithas a theulu'r ffydd.







# NEWYDDION BETHLEHEM

## *Llongyfarchiadau i*

- **Caryl (Pollard)** ar dderbyn swydd yn Ysgol Uwchradd Gymraeg Plasmawr.
- **Côr CF1** ar ddod yn fuddugol gyda 2 Wobr Aur yng Ngŵyl Gorawl Rithiol Indonesia. Yr arweinydd, wrth gwrs, ydy Eilir Owen Griffiths, Ffynnon Taf.
- **Anthony Evans,** ar ei ymddangosiad ar "Cymry ar Gynfas" – lle gwelwyd yr arlunydd yn creu portread 'print litho' o'r Archdderwydd, Myrddin ap Dafydd.
- **Leah Owen Griffiths** ar ei hymddangosiadau ar gyfres "Ffit Cymru".

**RYDYN NI'N CYDYMDEIMLO â'r canlynol ac yn anfon ein cofion**

**Mrs Beti Williams, Radur,** sydd wedi colli ei mab, a fu farw yn ei waith yn Llundain yn ystod y dyddiau diwethaf.

**Huw Roberts a Gwawr** a'r teulu, Yr Eglwys Newydd. Collodd Huw ei dad, Y Parchedig John Roberts, Abergwaun, a fu'n brifathro ysgol cyn mynd i'r Weinidogaeth gyda'r Bedyddwyr ym 1977.

Trist hefyd oedd clywed am golli dau gennad fu'n pregethu'n fynych dros y blynyddoedd ym Methlehem, sef y Parchedigion **Derwyn Morris Jones** (Fforestfach) a **W. I. Cynwil Williams** (Penylan).

## Yr Oedfaon ……. hyd y cyfnod byddwn yn cyfnewid ag Efail Isaf

*(ar-lein – nes daw'n adeg dychwelyd i Fethlehem)*


**Mai 16 –** *Y Parchedig Dafydd Andrew Jones*
**Mai 23 –** *Merched Bethlehem*
**Mai 30 -** *Parchg R Alun Evans*
**Meh 6 -** *Delwyn Sion*
**Meh** 13 - *Huw Lloyd*
**Meh** 20 - *Parchg Glyn Tudwal Jones*
**Meh** 27 - *Parchg Ganon Aled Edwards*
**Gorff 4 -** *Delwyn Sion*
**Gorff** 11 - *Parchg Ifan/ Catrin Roberts*
**Gorff** 18 - *Rhodri-Gwynn Jones*
**Gorff** 25 - *Parchg Lona Roberts*

(Diolch i Delyth Evans, Y Barri, am ei holl waith yn trefnu'r Suliau.)

# Y Briodas Ddirgel

Ifan Roberts

Na – nid fy nisgrifiad i ydy'r geiriau yn y pennawd – ond rhai'r priodfab ei hunan!
Wrthi'n darllen cyfrol sydd ag iddi dros 500 tudalen yr oeddwn i, am ŵr fu'n bur enwog yn ei ddydd yng Nghymru, ac a fu'n destun edmygedd a llid yn ei dro. Wrth ddarllen, roeddwn i'n dal i gofio un o hynafgwyr Bethlehem, Gwaelod-y-garth, yn dweud wrtha i mai yn ein capel ni y cynhaliwyd ail-briodas testun y llyfr. Er mor ddifyr y gyfrol, allwn i ddim aros i gyrraedd y bennod honno yn yr hanes, felly dyma droi at y Mynegai yn y cefn.
Y fath siom! Nid oes gyfeiriad yn y Mynegai at Fethlehem na Gwaelod-y-garth.
Ond mae'r gyfrol yn cadarnhau mai yma, yn wir, y bu ail-briodas y bardd, Cynan, gyda Menna Meirion Jones yn Ebrill 1963. Yn wir mae cyfrol Gerwyn Williams am fywyd y "Marmite" o gymeriad yn dyfynnu'r cyn Archdderwydd ei hun yn sôn am eu *"priodas ddirgel yng Nghapel Gwaelod-y-garth ... rhag cael byddin o gamerâu a gwŷr y wasg yn bresennol."*
Pam Bethlehem, meddech chi? Roedd yr ateb ar aelwyd arbennig ym Mhentyrch – "Greenhurst" - sydd gerllaw Tafarn Y Kings Arms. Yno y trigai un o gyfeillion eisteddfodol Cynan, y diweddar T. W Thomas, fu'n un o golofnau'r achos ym Methlehem ac, yng ngeiriau awdur y cofiant, yn un o "gapteiniaid selog Cynan" mewn ambell i bennod arall yn ei yrfa. Yn ôl yr hanes, dim ond chwech oedd yn y briodas ar ddydd Mercher, Ebrill 16fed, 1963. Pwy felly, dybiech chi, oedd rheiny?
Gan nad cylchgrawn "Hello!" ydy'r cofiant swmpus, dydy'r manylion i gyd ddim yno, felly rhaid oedd chwilota ymhellach – a hynny drwy geisio copi o'r dystysgrif welwch chi isod, o'r "*General Register Office*" yn Llundain:



1963. Marriage solemnized at Bethlehem Chapel Gwaelodygarth, Pentyrch in the District of East Glamorgan in the County of Glamorgan

| No. | When married | Name and surname | Age | Condition | Rank or profession | Residence at the time of marriage | Father's name and surname | Rank or profession of father |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | Sixteenth April 1963 | Albert Evans-Jones | 67 years | Widower | University Lecturer | "Greenhurst" Pentyrch | Richard Albert Jones (deceased) | Restaurant Proprietor |
| | | Menna Meirion Jones | 40 years | Spinster | School Teacher | "Meirion" Valley Holyhead | William John Jones (deceased) | School headmaster |

Married in the Bethlehem Chapel according to the rites and ceremonies of the Congregationalists by Licence by me, Gwilym Morris Minister

This marriage was solemnized between us, A. Evans-Jones, M. M. Jones; in the presence of us, M. Edwina Thomas, T. W. Thomas, Mrs. Elvira Morris; Ewart H. Phillips Registrar

Gan mai copi yn llawysgrif rhywun cyfoes ydy hwn – nid dyma lofnodion go iawn y dystysgrif wreiddiol. Ond mae rhai o'r chwech fu yn y briodas, os nad yn wir y cyfan, i'w gweld ar y papur. Cofnodir fod "Albert Evans Jones", sef enw iawn Cynan, yn byw yn "Greenhurst, Pentyrch"! Tybed? Cofnodir ei oedran fel 67, er iddo, yn ôl y gyfrol, ddathlu ei ben-blwydd yn 68 ddeuddydd cyn y briodas!
Gwelir enw ei briodferch, Menna Meirion Jones, a'i hoedran hithau. Y gweinidog ar y pryd, y diweddar Barchedig Gwilym Morris, oedd yn gwasanaethu, ac fe nodir fod yna dri thyst, sef T. W. Thomas, a'i briod yntau, Mrs Edwina Thomas, a Mrs Elvira Morris. Y Cofrestrydd oedd gŵr o'r enw Ewart Phillips. Tybed ai dyna'r chwech?
Dau ôl-nodyn bach i'r hanes. Ychydig fisoedd yn ddiweddarach, yr un haf, ym Mhrifwyl Llandudno, roedd Ryan Davies a Rhydderch Jones yn rhan o Noson Lawen Cymry Llundain ac yn tynnu'r lle i lawr wrth gyflwyno darn o gerdd dant, sef "Anfon y Nico" gan Cynan ar y gainc "Merch Megan". Menna, y briodferch, yn wir oedd "merch Megan" y gerdd wreiddiol. Ac yn yr un wythnos, fe gefais innau wybod gan ŵr o sir Fôn, bod y Vauxhall 14 roeddwn i wedi ei brynu ym Miwmaris, yn wir, wedi bod yn eiddo i'r union "ferch Megan" dan sylw!

# Oedfaon ar-lein – canol Ebrill i ganol Mai


***.....ac yn parhau i fod ar gael ar YouTube***

## Ebrill 18

**R Alun Evans**

https://youtu.be/DmcDW7JbxW4





## Ebrill 25

**Emlyn Davies**

https://youtu.be/wr33-_VF7Wk






## Mai 2

**Delwyn Sion – Sul y Cymun**

h ttps://youtu.be/PLIp0cDC_UA







## Mai 9



**Ieuenctid yr Ysgol Sul a Heulwen Jones – Sul Cymorth Cristnogol**

https://youtu.be/lVxRrzNRCkY







Ein helusen leol

# CANOLFAN Y DRINDOD CAERDYDD

Fe gofiwch i ni wneud ymdrech arbennig cyn Nadolig 2020, i gasglu bwydydd a deunydd hylendid personol ar gyfer ein helusen leol, sef Canolfan y Drindod, Caerdydd.

'Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno ei bod yn briodol i ni ystyried ymgyrch arall yn fuan, er mwyn eto ddangos ein gwerthfawrogiad o'r hyn sy'n cael ei gyflawni gan yr elusen ar ran ffoaduriaid a cheiswyr lloches ar ein stepen drws.

Gwyddom bod Banc Bwyd y Ganolfan â dybryd angen y canlynol:-

- Pasta sych (nid deunydd ar gyfer y microdon)
- Reis (eto nid pecynnau microdon)
- Sbageti sych
- Sudd ffrwythau
- Llaeth hir-oes (hanner-sgim neu hufen llawn)

Mae Alwyn Harding Jones yn holi ymhellach ynglŷn a gofynion eraill, a phan ddaw y wybodaeth honno i law, fe wnawn ddewis dyddiad ac amser fel o'r blaen i dderbyn eich cyfraniadau wrth ddrws y capel.

Fe nodwch, o gyfeiriad arall yn y 'Gair bach', fod Fflur, merch Alwyn ac Angharad, ar gyfnod mamolaeth o'r Ganolfan, a'n bod bellach mewn cyswllt â Jack, sy'n llenwi'r swydd am y cyfnod nesaf yma.

Fel y tro diwethaf, mae Alwyn wedi gwirfoddoli i hebrwng y casgliad o'r capel i'r Ganolfan.

Cadwch eich clustiau a'ch llygaid ar agor am fwy o wybodaeth am yr ymgyrch hon, a gwn y byddwch, fel pob amser, yn hael eich cyfraniadau pan ddaw'r alwad.

**RhGJ**

*Cofiwch am*

## EISTEDDFOD RITHIOL YR YSGOL SUL 2021

**10.30 fore dydd Sul 23 Mai.**

Mae gwahoddiad i gymaint a phosibl i ddod i gefnogi – a does dim rhaid rhoi gwybod o flaen llaw – dim ond ymuno ar y bore a bydd croeso mawr i bawb.

**COFIWCH – bod croeso i bawb alw ar unrhyw wythnos yn yr Ysgol Sul ar Zoom.**

I ymuno ewch i https://us02web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNDd3M3ZCUT09 neu mewnbynnwch 714 6634 3537 ac yna'r cyfrinair: Bethlehem. Fel arfer, mae angen rhoi gwybod i Heulwen yn gyntaf: heulwen@btinternet.com neu 07779 360614

(yr hanesion diweddaraf am yr Ysgol Sul ar dudalen 4)

***Deufis i feddwl a pharatoi!*** ***Ie! Dau fis llawn y tro hwn!***

# DYDDIAD CAU

**AR GYFER**

## DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF

# Gorffennaf 15

(Ysgrifennwch air neu ddau a'i anfon at Ifan Roberts:

**tycnau@aol.com**

Rhodri-Gwynn Jones

# Casét llawn atgofion am yr "Oasis gwyrthiol"

**Clywed Ben Howell, Gwaelod-y-garth yn crybwyll mymryn o hanes Bethlehem yn '30au a '40au'r ganrif ddiwethaf ysgogodd y cofnod hwn sydd o'ch blaen. Mis Medi 1989 oedd hi pan es i draw i gartref Ben a Megan (yn wir gwahodd fy hun a wnes i), ac agor cil y drws ar atgofion y ddau ohonynt am y cyfnod cyn, yn ystod ac wedi'r Ail Ryfel Byd.**

Cael fy nghyfeirio at rifyn Hydref / Gaeaf 1944 o gylchgrawn y "Llenor" a gefais i gychwyn – i "Nodiadau'r Golygydd" – sef W J Gruffydd. Yno 'roedd W J Gruffydd yn sôn am ddathlu canmlwyddiant marw un gweinidog go arbennig ym Morgannwg, sef Thomas William, Bethesda'r Fro, ac hefyd yn cyfeirio at farwolaeth un arall sydd a'i enw yn sicr yn gwlwm o amgylch Bethlehem, Gwaelod-y-garth, sef R G Berry.



Dywed W J Gruffydd fod y naill a'r llall wedi creu mathau arbennig o eglwysi yn eu parthau gwahanol – "*Berry, o ddefnyddiau digon cyffredin, a than gryn lawer o anfanteision, (wedi creu) un o eglwysi mwyaf effro a grymus yn yr holl wlad, a phan oedd eglwysi Cymraeg eraill yn y cylch bron yn ddi-eithriad yn edwino ac yn troi'n Saesneg (a hynny'n eu gyrru ymhellach i lithro i ddirywiad) cadwodd Bethlehem ei bywyd Cymraeg a'i gweithgarwch, ac edrychid arni fel rhyw oasis gwyrthiol yng nghanol anialwch*."

'Roedd gan Ben hefyd gopi o sgript rhaglen radio y BBC o'r flwyddyn 1951 – rhaglen o'r enw "Brethyn Cartref" a recordiwyd o Waelod-y-garth, a dyma gyfeirio at y broliant i'r rhaglen yn y "Radio Times" bryd hynny – "*Pentref nepell o Gaerdydd – er ei fod ynghanol ardal a seisnigeiddwyd yn helaeth 'roedd y fflam Gymreig wedi dal ynghyn yno*."

[Dim ond dau o'r rhai a gymerodd ran yn y rhaglen honno oedd yn fyw ym Medi 1989 – sef Ben a T W Thomas. Y cyfranwyr eraill oedd John Phillips, Philip Phillips, y Parchedig Gwilym Morris, T J Morgan, Ben Rees a John Davies.]

Trwy gyfrwng y ddau gyfeiriad yma, dyna Ben yn gosod pentref Gwaelod-y-garth yn dwt a thaclus yn ei gyd-destun.

"*Pentref diwydiannol, gyda'r rhan fwyaf o'r pentrefwyr yn gweithio yn y gweithfeydd glo cyfagos. 'Roedd mwyafrif mawr o bobl y pentref yn Gymry, er fod ambell i Sais wedi ymfudo yno o Wlad yr Haf (yn eu plith tad Meirion Castle). 'Roedd yn rhaid i'r mewnfudwyr ddysgu Cymraeg neu'n naturiol fod ar wahân i weddill y pentref!*

*'Roedd y mwyafrif hefyd yn gapelwyr, ac un a'i yn mynd i Fethlehem, neu i Salem (Bedyddwyr) ym mhen arall y pentref. Mentrai ambell un "dros y dwr" i Ffynnon Taf at y Methodistiaid. Yn yr hen ddyddiau, cyn codi Pont Sion Phillips, 'roedd yn rhaid croesi'r afon Taf ar y "bad"! (Tad Arthur Phillips, Phil a Nest, Tŷ Newydd, oedd Sion Phillips gyda llaw.)*

*Tydi hi ddim yn syndod o gwbl i ddeall nad oedd 'na lawer o gyfeillgarwch rhwng yr enwadau hyd yn oed yng Ngwaelod-y-garth – pobl yn croesi o un pen i'r pentref i'r llall ar y Sul heb bron ddweud "bore da" wrth ei gilydd. Er bod digon o ras ym Methlehem, wedi i gapel Salem gau, i ethol un a oedd yn aelod, ac yn gynhaliwr yr achos yno, yn ddiacon (gŵr Hannah Lewis). Yn ddi-os mae'r capel wedi cael dylanwad aruthrol ar y pentref – a'r gweinidog wedyn yn ei dro yn dod yn rhan o chwedloniaeth a hanes y cylch."*

Credai Ben Howell pan oedd yn blentyn, fod 'na gylch o amgylch pen R G Berry pan yn y pulpud – yn wir meddyliau mai "*sant ydoedd*"!

*"'Roedd yn pregethu yn benodol bob amser ar "Grist yr Arglwydd – fel un ag awdurdod ganddo ac nid fel yr ysgrifenyddion" – dyna un o'i hoff adnodau. Byddai'n paratoi'r pregethau'n fanwl – 'roedd iddynt safon uchel dros ben, ac ni fyddai byth yn ail-adrodd pregeth. R G Berry hefyd fyddai'n gofalu am gennad i lenwi'r Suliau gwag fyddai yng nghalendr y capel. Mae ei ddylanwad wedi bod yn anfesuradwy ar genedlaethau o bobl Y Gwaelod. 'Roedd ei stamp ar yr aelodau yn sicr, ond hefyd ar rai nad oeddent yn dod i'r capel. 'Roedd ganddo barch at bawb a phawb barch ato yntau – fel dyn, yn ei foes ac yn ei waith."*

Oherwydd yr Ail Ryfel Byd, fe gollodd Ben flynyddoedd olaf gweinidogaeth Berry, ond cofia iddo ysgrifennu pwt o gydymdeimlad i'w weddw o anialwch y Dwyrain (ac yntau bryd hynny yn yr awyrlu yn ymladd Rommel) gan ddyfynnu o gerdd R Williams Parry:-

*"O'r addfwyn yr addfwynaf,*
*ac o'r gwir y gorau gaf."*

*'Roedd dylanwad y cartref yn bwysig hefyd wrth reswm – bywyd digon cyffredin a dreulid, cartrefol a gwerinol – ychydig yn wir oedd heb fod o dan ddaear. Ysgrifennodd y Parchedig Gwilym Morris am rai o hen gymeriadau'r cylch gan sôn am Millie Davies – un heb lawer o arian ganddi, ond a oedd yn rhoi arian heibio ar y silff-ben-tan bob bore Llun, ar gyfer y Sul canlynol. 'Roedd 'na arbenigrwydd yn perthyn i'r aelodau er gwaethaf eu tlodi."*

Symudodd y sgwrs wedyn i'r sôn am yr Ail Ryfel Byd a'i heffeithiau. ***(Parhad ar y dudalen nesaf)***

"*Y radio, bid siŵr, oedd y cyfrwng newyddion bryd hynny, - 'roedd set i'w chael bron ymhob cartref yn y cylch.*"

(Yng nghartref rhieni T W Thomas y gwelodd Ben y set radio gyntaf erioed yn y dauddegau – set radio "*Cat's whiskers*" fel y'i gelwid.)

Yn sicr 'roedd yna ymwybyddiaeth fod yr amser yn un cythryblus – cofia Ben am gyfarfod pobl ifanc yn 1936/37 yn y Festri, yn union wedi i fyfyrwyr Rhydychen (yr Oxford Union), drafod y mater o fynd i ryfel a'i peidio. "*Tri deg neu fwy o ieuenctid y capel yn erbyn mynd i ryfel bryd hynny, ond erbyn 1939 wedi newid eu meddyliau ac ymhlith y rhai cyntaf i ymuno. A hynny oherwydd iddynt gredu yn bendant fod dyfodol a thynged pobl eu gwlad yn y fantol – a Hitler a'i SS a'u Sieg Heil yn codi ofn arnynt.*"

Ac wedi i Ben ymuno a'r awyrlu a mynd i ryfel, bu Bethlehem yn gymorth mawr iddo fo a'i gyfeillion trwy gadw cysylltiad a hwy pa le bynnag yr oeddent. Ysgrifennodd R G Berry at Ben yn yr anialwch (Roedd llythyr o'i eiddo ganddo yn ei feddiant o hyd), ac 'roedd Ben yntau yn ffyddlon i'w draddodiadau.

Mynd a'r Beibl yn ei "git-bag" wrth reswm, ac hefyd gopi o'r "Haf a Cherddi eraill" (R Williams Parry). Yn anffodus, yn ystod un cyflafan, bu rhaid i Ben a'i griw ymadael a'u gwersyll ar frys i fynd i wynebu lluoedd Rommel, ac fe aeth y gyfrol ar goll!

*"Pwy ŵyr nad yw hi yno o hyd mewn gwerddon yn ysbrydoli'r Arab ar ei grwydr!"*

Fe fyddid yn mynychu lle o addoliad ar y Sul yn ddi-ffael – cofia fynd i Eglwys Gadeiriol yng Nghairo – lle 'roedd yno Esgob o Gymru, er nad yn siarad Cymraeg – a chofia hefyd glywed ambell i bregeth Gymraeg yn y ddinas.

Ac wedi'r rhyfel, dychwelyd, a gweld newid – rhai o'r hen wynebau wedi mynd, llawer o'r bechgyn wedi gwasgaru, a Ben ei hun yn ddychwelyd i fod yn athro.

*"'Roedd R G Berry wedi marw, a hynny ynddo'i hun yn golled anrhaethol*."

[Ymhen tair blynedd wedyn y daeth y Parchedig Gwilym Morris yn weinidog ar Fethlehem.]

A beth tybed oedd y drefn ym Methlehem wedi'r rhyfel?

"*Ychydig o fynd a dod oedd yna ('roedd yr aelodaeth yn y '30au tua 180, ac ar ôl 1945 tua 150) – deuai ambell un o Lanyllyn, Tongwynlais neu Rhiwbeina – ond neb o Bentyrch oherwydd fod achosion Cymraeg yno. 'Gwrandawyr' oeddech chi os nad oeddech yn aelod – a rheini fel arfer yn 'ishta' ar flaen y galeri. Nid oedd neb erioed wedi ei 'hala' i'r llofft, ond dyna'r drefn! Byddai ambell un yn eistedd lawr llawr, Jack Jones y nofelydd ("Off to Philadelphia in the Morning") yn eu mysg.*

*'Roedd 'na ysgolheigion ymhlith y gynulleidfa – Griffith John Williams a'i wraig, W J Gruffydd a T J Morgan, a mam a thad y Barnwr Dewi Watkin Powell – ac o dan ddylanwad y criw yma y sefydlwyd cangen o Undeb Cymru Fydd – dan nawdd eglwysi Cymraeg y cylch, sef Salem a Bethlehem (Gwaelod-y-garth), Tabor (Ffynnon Taf), Glandŵr (Glanyllyn), a'r Winllan (Nantgarw). Aed o gwmpas i gynnal cyfarfodydd yn trafod yr iaith, agweddau ar fywyd y cylch a Chymru, enwau lleoedd, a byddai'r Festri yn orlawn ar gyfer pob pwnc. Byddai cangen o'r Urdd yn cwrdd yma, cynhelid Eisteddfodau a Chyngherddau, yn ogystal a Dramâu ('roedd llwyfan yn y Festri bryd hynny.)*

*'Roedd y cwmni drama yn enwog dros ben, yn perfformio dramâu Berry wrth gwrs, ac 'roedd Nansi Millward yn aelod blaengar o'r cwmni drama – byddai ei phresenoldeb ar y llwyfan yn ddigon! Yn ôl y sôn 'roedd 'na wrthwynebiad gan yr hen bobl (y "piwritaniaid") i ddechrau cwmni drama! Yn Eisteddfod Genedlaethol Bangor (1931?), bu brwydr fythgofiadwy rhwng Cwmni Caernarfon a Chwmni Gwaelod-y-garth – a dim ond dallineb y beirniaid a roddodd y wobr i'r Cofis!*

*Byddai'r (arch)ddiacon Joseph Millward yn dod i'r Festri i edrych ar y llenni ar draws y llwyfan ac yn wfftio at y "theatre"!*

*'Roedd llun o Joseph Millward yn arfer bod ar wal y Festri, a hynny, wrth gwrs, ymysg lluniau Gweinidogion y capel – 'roedd yn sefydliad ynddo'i hun!*

*O ran trefn y gwasanaethau yn y capel ar y Sul, cynhelid oedfa yn y bore, yna'r Ysgol Sul yn y prynhawn, gyda rhyw 25ain o fechgyn dros 18 oed mewn dosbarth, dosbarth arall i'r merched, i'r chwiorydd ac i'r brodyr. Byddai'r Festri a'r capel yn llawn.*

*Yna'r oedfa hwyr, ac wedi'r bregeth, ceid emyn ac wedyn y Gyfeillach, pan ddoi'r Gweinidog i lawr o'r pulpud i ddweud gair pwrpasol ynglŷn a'r Sul.*

*Pan fyddai'r Gweinidog "oddi cartref", 'roedd yn ddyletswydd ar y Diaconiaid i gymryd at y dasg, ac er eu cefndir di-addysg, 'roedd pob un yn ddeheuig a sylweddol eu trafod – a hynny yn parhau am rhyw ddeg munud o amser. Byddai'r Diaconiaid yn cwrdd yn achlysurol ar nos Sul i drafod cyfraniadau a phopeth arall a haeddai sylw. Byddai'r cyhoeddwr ar y Sul yn eu tro yn adrodd fod 'na "Gwrdd Gweddi am 7:00 o'r gloch nos yfory, Band of Hope ar nos Fercher, Y Gyfeillach ar nos Iau, a'r Bobl Ifanc ar nos Wener.*

*Ambell dro, os oedd y cyhoeddwr yn teimlo fod yna lacio gafael ar bethau, byddai'n ychwanegu – "'Nawr dewch i'r capel, 'rydych chi'n tueddu i gwni'ch cwt i bobman ond i'r capel." Arferai pregethwyr dieithr ddod i mewn i'r capel trwy'r drws ar y chwith – ambell i waith doi un trwy'r drws ar y dde – "'roeddwn yn gwybod bydda fo'n bregethwr da – daeth i mewn trwy'r drws yna" fyddai dedfryd ambell un!*

**Yn anffodus, er i mi fwynhau'r te a'r teisennau hyfryd a baratowyd ar gyfer fy ymweliad â Megan a Ben, hyd y tâp yn y peiriant recordio a benderfynai hyd y sgwrs y noson honno, ac ysywaeth ni bu parhad!**
**Trueni oherwydd 'roedd gan y ddau ohonynt gymaint yn fwy o stori i'w hadrodd.**

# ODLAU'R GARTH

Fel hyn mae Martin Huws, Ffynnon Taf, yn cyflwyno ei waith y tro hwn:

*"Dyma 'gywydd' di-gynghanedd yn cynnwys elfenne o 'mhrofiad i'n gwitho mewn gwaith dur".*

## Sgrap

*Rôl cau Gwaith Dur East Moors, 1978*

Didranc o'dd y llanc mewn llun,
corff gosgeiddig fel cerflun,
â thystysgrif yn ei law,
tincial y gwydre'n alaw.

A llydan oedd ei gynfas,
jobyn o's a phensiwn bras.
Dyfal donc, ei grefft yn gron,
yn gwarchod rhag y gwreichion.

Diwaelod yw y dolur:
whap da'th i ben y gwaith dur.

Gwas y powdwr brown bob dydd,
llama'r gwreichion i'w 'mennydd,
hyn tu ôl masg o wyneb,
seren y llwyfan yn neb.

Darne sgrap yw'r swyddi saff,
crafad braich ei feddargraff.

***Martin Huws***

**Telyneg fu'n fuddugol yr wythnos hon yn Eisteddfod Rithiol Llandudoch sydd gan Hannah Roberts. Dyma ran o'i chyflwyniad iddi:**

*"Un peth sy wedi dicw'dd yn ystod y flwyddyn od ddwetha' yw ca'l amser i feddwl. Fe netho i dipyn o hynny, a'r meddwl fel adenydd yn etfan nôl, nol i gyfnod ac ardal ienctid, nôl gatre i Trebo'th... Ethoi nôl yn amal at y capel, "Caersalem Newydd", I bobol o'n nghenedleth i, mewn byd di-deledu, hwn o'dd cyfrwng ein cymdeithasu, hwn o'dd ein diwylliant. Fe fuom yn lwcus, cawsom gyfoeth, yn grefydd, yn gerddi, yn gymanfa, yn gôr a môr o gerddoriaeth. Lle allweddol, wrth gwrs, o'r capel o'dd y Festri, yno y cyfarfu'r "Gorlan"--y gymdeithas bobol ifenc, yno roeddem yn practiso canu Drama'r Genid, yno y bydde' Llestri'r Festri yn ca'l dod mas i groesawu ymwelwyr o gapeli erill, a'r siarad yn gymysg a sŵn y tsheina, cwpan yn taro saser, ne' llwy yn troi'r siwger."*

## LLAIS

Wedi'r oedfa,
yn y blwch ar y bryn,
clywch hymian gwenynaidd y festri.
Ma' tafotieth y diwetydd
yn feichiog
o arogl "ffocs ffyr"
a mint imperials,
a chaleti'r wilia rhwng y welydd
cyn hyned
a gwythiennau glo yr ardal.

"O'dd y gwenitog yn llicad ei le heno 'to"
"O'dd, cofiwch beth wetws e"-----

a sain tyner tsheina
yn gyfeiliant i'r sgwrs.

"Chi moyn dishgled arall?"
" O, otw i".

Ddoe oedd hynny.

Heddi,
ar y seld,
ma' un o gwpanne strae
"Caersalem,"
cwpan sy'n llawn
o'r cloncan coll,

parabl aelote,
diaconied,
tylw'th a rhieni.
Un o lestri'r festri,
a rhyw lais annwyl
cyfarwydd ar ei wefus.
Gwrandawaf
yng nghlust y ddishgil hon,
clywaf eto
y wilia rhwng y welydd,
cwpan
yn llawn cloncan,
cwpan
y lleisiau
coll.

**DEDLEIN NESAF y Gair Bach!**

**Gorffennaf 15 tycnau@aol.com**

***Cyfansoddwch – anfonwch air – am unrhyw beth dan haul!***